Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 12 Mawrth 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M Durke | V M Evans | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P K Jones | W G Lewis | I E Mann |
| W G Thomas | | |

| **Aelodau Cyfetholedig** | **Aelodau Cyfetholedig** | **Aelodau Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: S E Crouch, B Hopkins, E J King a G J Tanner

---

## 111 Derbyn Datganiadau o Gysylltiadau Personol Rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 112 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 113 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

## 114 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd gan y cyhoedd unrhyw gwestiynau.

## 115 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr (y Cynghorydd Robert Francis-Davies)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr adroddiad am benawdau allweddol ar gyfer y portffolio Diwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

Dylan Thomas
- Y buddion diwylliannol, twristiaeth ac economaidd i Abertawe
- Posibilrwydd o ehangu Arddangosfa Dylan Thomas
- Prydlesu'r ganolfan i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a llwyddiant y brydles honno
- Creu llwybr Dylan Thomas
- Hyrwyddo Dylan Thomas yn well, yn ogystal â phobl amlwg eraill o Abertawe megis John Dillwyn-Llewellyn ac aelodau eraill Grŵp y Kardomah.
- Effaith cyni a thoriadau cyllidebol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer y fath hyrwyddo

Car Cebl Nenlinell a Phenderyn
- Y camau nesaf - cytuno ar Benawdau'r Telerau
- Goblygiadau Ariannol

Dinas Diwylliant
- Cost y cais/proffil uwch er gwaethaf methiant cais Dinas Diwylliant y DU 2021
- Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno'r rhaglen etifeddiaeth a ddatblygwyd fel rhan o'r cais
- Gwersi a ddysgwyd o geisiadau aflwyddiannus blaenorol ac a ddylid cyflwyno mwy o geisiadau
- Gŵyl Gerddoriaeth Y Penwythnos Mwyaf gan Radio 1 sydd ar ddod

Opera Cenedlaethol Cymru
- Diffyg ymddangosiadau yn Theatr y Grand neu leoliadau eraill yn Abertawe er gwaethaf 40% o gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Tîm Rheoliaeth Canol y Ddinas
- Pryder ynghylch glendid canol y ddinas, yn enwedig o gwmpas Sgwâr y Castell a'r argraff/effaith ar fuddsoddwyr ac ymwelwyr ag Abertawe

Prifysgolion
- Cynigion am bentref chwaraeon rhyngwladol
- Cysylltiadau cludiant rhwng dau gampws y Brifysgol

Dinasoedd Gwyrddach
- Enghraifft o weithgareddau sy'n cefnogi'r cyfrifoldeb portffolio hwn

Caeau chwarae 3G
- Mae'r cam cyntaf wedi'i gwblhau ym Mhenyrheol a Threforys
- Byddai'r ail gam yn canolbwyntio ar dri safle sef Ysgol Gyfun/Canolfan Hamdden Gymunedol Cefn Hengoed, Ysgol Gyfun/Canolfan Chwaraeon Gymunedol Pentrehafod ac YGG Bryn Tawe/Canolfan Hamdden Gymunedol Penlan
- Byddai mwy o gaeau chwarae 3G yn ddibynnol ar gytundeb â Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 116 Adroddiadau Cynnydd y Panel Perfformiad Craffu.

Fel Cynullydd y panel, cyflwynodd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams adroddiad am gynnydd Panel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Myfyriodd ar yr hanes ers i'r gwasanaeth fod yn destun mesurau arbennig yn 2009, a'r daith wella. Dywedodd fod y ffaith fod y Panel Perfformiad bellach yn cwrdd yn llai aml (bob deufis) sy'n adlewyrchu'r gwelliant a gafwyd. Fodd bynnag, ychwanegodd bod mwy o welliant i'w wneud ac y byddai'r panel yn parhau i fonitro cynnydd.

Roedd yn falch bod nifer o gynghorwyr newydd wedi ymuno â'r panel a'u bod wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr.

Tynnodd y Cynghorydd Hood-Williams sylw'n arbennig at y ffaith fod y galw am fabwysiadwyr yn llawer uwch na'r cyflenwad, a bod angen ymgyrch i gynyddu mabwysiadwyr yn genedlaethol. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am drefniadau craffu Bae'r Gorllewin.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

## 117 Aelodaeth Paneli Craffu a Gweithgorau.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli craffu a gweithgorau.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r diwygiadau canlynol fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad:
1) Tynnu enwau'r Cynghorwyr Cyril Anderson a Will Thomas o'r Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio.
2) Tynnu enw'r Cynghorydd Wendy Fitzgerald o'r Gweithgor Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.

## 118 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r pwyllgor am Raglen Waith Craffu 2017/18. Amlygwyd y byddai Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol yn bresennol yn sesiwn holi ac ateb nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu. Anogwyd y pwyllgor i feddwl am gwestiynau posib.

Ynglŷn â'r drafodaeth am gynllun peilot adeiladu tai cyngor Mwy o Gartrefi ym mis Tachwedd 2017, gofynnodd y Cadeirydd i'r pwyllgor gadarnhau ei awydd am gyfarfod craffu cyn-penderfynu mewn perthynas â'r ail gynllun datblygu ym Mharc yr Helyg, y disgwylir i adroddiad amdano fynd gerbron y Cabinet ar 19 Ebrill 2018.

**Penderfynwyd:** -
1) Nodi'r diweddariad
2) Trefnu cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Rhaglen Graffu i graffu cyn-penderfynu ar yr adroddiad Cabinet sydd ar ddod, o'r enw 'Arfarniad Opsiynau Mwy o Gartrefi Safle Parc yr Helyg' - o bosib ar 16 Ebrill 2018 am 3.00pm.

## 119 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu. Roedd hyn yn cynnwys ymateb gan Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach yn dilyn y sesiwn holi ac ateb a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2017. Nodwyd nad aed i'r afael yn ddigonol â chwestiwn mewn perthynas â Chronfa Etifeddiaeth Cymunedau'n Gyntaf yn yr ymateb hwn. Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at Aelod y Cabinet i geisio mwy o ymateb ynghylch pa fesurau perfformiad a threfniadau monitro oedd ar waith i fesur canlyniadau a sicrhau y cafwyd gwerth am arian.

**Penderfynwyd** y byddai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach.

## 120 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

Nodwyd cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio. Adroddodd y cadeirydd fod aelod newydd wedi'i benodi ar y Pwyllgor Archwilio ac y byddai'r Pwyllgor Archwilio'n ethol cadeirydd yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n cael ei wahodd i fynd i gyfarfod yn y dyfodol i helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r panel craffu.

## 121 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Nesaf Paneli/Gweithgorau.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**